CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
Cadeirydd: Gethin Pyrs
Nos Lun Tachwedd 7ed 2022 am 7.30 y.h.

## Cofnodion - (103)

Daeth Catrin Roberts o Wasanaeth Hwyluswyr Tai Gwledig ac Anna Williams o Gyngor Conwy atom i egluro nod y gwasanaeth yw adnabod anghenion tai lleol. Bydd holiadur ar gael ar lein i drigolion yr ardal i roi cyfle iddynt nodi os ydynt mewn angen am dai, y math o dai a beth yw ei barn am ddatblygiad posib. Bydd prynhawn/fin-nos agored yn cael ei drefnu dechrau'r flwyddyn nesaf i drafod yr arolwg.

1. **Ymddiheuriadau**:
2. **Presennol**: Cyng. Dewi Evans, Gari B Jones, Gerallt Jones, Alun Owen, Gethin Pyrs, Edmund Rees, Cyng. Sirol Gwennol Ellis ac Enid Williams Clerc.
3. **Còd Ymddygiad**: Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Hydref:** derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir gan ER gyda GJ yn eilio.
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
   5.1. Digwyddiad galw mewn yn y Llew Gwyn - gan fod ER wedi methu a chyrraedd y cyfarfod cafwyd eglurhad o ba fath o gymhorthdal oedd yn bosib cael gan Gwmnïau'r Melynnau Gwynt, y Loteri a.y.b. gan ein Cynghorydd Sirol.
6. **Gohebiaeth:**
   6.1. CBSC – Llyfrgell Cerrigydrudion – angen mwy o fanylion.
7. **Ffurflen Monitro:**
   Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn
8. **Mantolen Banc:**
   Edrychwyd dros y fantolen, hyd yma mae popeth mewn trefn.
9. **Talu Anfonebau:**
   9.1. CBSC – Etholiadau Lleol 2022 – cynigiodd GJ gyda ER yn eilio talu'r anfoneb o **£135.00** gyda siec rhif **100377** (137)
   9.2. Blodau/Compost – cynigiodd DE gyda ER yn eilio talu'r anfoneb o **£48.00** gyda siec rhif **100376 (S19)**
10. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwennol Ellis** – Mae rhai yn trio cychwyn banc bwyd yn yr ardal ond y broblem ydi cael lleoliad i storio'r cynnyrch. Roedd wedi cael cwyn gan Eryl Hughes Hafodre Isa fod wal angen sylw . Erbyn hun mae'r gwaith bron wedi ei gwblhau..
11. **Unrhyw fater arall:**
   11. 1. Bydd y Sgip Gymunedol ar y Maes Parcio dydd Mawrth Tachwedd 15fed 2022.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf Rhagfyr 5ed 2022**

Arwyddwyd ______________________________ Dyddiad ___05.12.22___________________
Cadeirydd